

Newyddlen demograffeg Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019

Ystadegau'r rhestr etholiadol 2018

Cyhoeddwyd y datganiad [Ystadegau Etholiadol ar gyfer y DU: 2018](#) (Saesneg yn unig) gan ONS ar 22 Mawrth 2019. Mae'n rhoi data am bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau seneddol ac etholiadau llywodraeth leol fel y'u cofnodwyd yn y cofrestri etholiadol a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2018 (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Cyfanswm nifer yr etholwyr seneddol yng Nghymru yw 2,230,100; sef gostyngiad o 1.4% rhwng 2017 a 2018. Hwn yw'r gostyngiad canrannol cyntaf a welwyd ers y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2015 pan gafwyd gostyngiad o 2% yn nifer yr etholwyr.

Mudo rhyngwladol hirdymor

Ym mis Mai cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) [yr Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#) MSQR (Saesneg yn unig). Mae'r gyfres o adroddiadau chwarterol yn dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU, yr Adran Gwaith a Phensiynau y DU, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae amcangyfrifon yr [Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) (Saesneg yn unig) ar gyfer mudo rhyngwladol hirdymor (hynny yw, dros 12 mis) yn dangos bod tua 5,000 wedi mewnfudo o'r UE a rhyw 16,000 wedi mewnfudo o wledydd nad ydynt yn yr UE i Gymru yn 2017; a bod rhyw 3,000 wedi allfudo i'r UE a rhyw 4,000 o allfudwyr i wledydd nad ydynt yn yr UE.

Dengys [amcangyfrifon mudo rhyngwladol byrdymor](#) (Saesneg yn unig) i Gymru fod nifer yr ymfudwyr byrdymor i Gymru wedi bod yn cynyddu yn gyson ers canol 2011, o ryw 2,200 yng nghanol 2011 i ryw 5,400 erbyn canol 2017 (dros dro), gyda rhyw 1,400 yn symud i Gymru am gyflogaeth a rhyw 4,000 yn symud i astudio.

Amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth i Gymru ar sail 2017

Mae amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth i Gymru ar sail 2017, a oedd i'w cyhoeddi yn Ebrill 2019, bellach wedi'u gohirio oherwydd bwlch staffio parhaus yn y tîm a'r angen i gefnogi blaenoriaethau eraill yn y tymor byr. Cânt eu cyhoeddi bellach ar 29 Awst 2019.

Amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd i Gymru ar sail 2017

Bwriedir cyhoeddi'r amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd i Gymru ar sail 2017 ym mis Hydref 2019. Bydd yr adroddiad yn dangos y canlyniadau ar lefel awdurdod lleol a pharc cenedlaethol.

Amcangyfrifon canol 2018 o'r boblogaeth

Bwriedir cyhoeddi amcangyfrifon canol 2018 o'r boblogaeth ar 26 Mehefin

Amcangyfrifon aelwydydd: canol 2018

Bwriedir cyhoeddi'r amcangyfrifon o aelwydydd ar gyfer canol 2018 ym mis Hydref 2019.

Data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Ar ddiwedd Mawrth cyhoeddwyd canlyniadau'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth \(APS\)](#) (Saesneg yn unig) ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018 ar wefan [StatsCymru](#).

I gyd-fynd â'r canlyniadau hyn, cyhoeddodd y Prif Ystadegydd [flog](#) yn esbonio'r cefndir i'r data, beth y maent yn ei ddangos, ac yn trafod sut y dylid eu dehongli.

Ar 29 Mai cyhoeddwyd [bwletin ystadegol](#) a gyflwynodd y canfyddiadau hyn o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn fanylach, ac a ymchwiliodd hefyd i'r rhesymau pam y mae'r canlyniadau'n wahanol i'r Cyfrifiad (y ffynhonnell allweddol a ddefnyddir i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg),

Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau)

Cyflwynwyd [Bil y Cyfrifiad \(Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau\) \("y Bil"\)](#) (Saesneg yn unig)syn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Mai 2019. Bydd y Bil yn diwygio [Deddf y Cyfrifiad 1920](#) a [Deddf y Cyfrifiad \(Gogledd Iwerddon\) 1969](#) (Saesneg yn unig) i ddileu'r gosb am beidio ag ymateb i gwestiynau newydd yn y Cyfrifiad ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Mae hyn yn golygu y gall Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, a Gogledd Iwerddon, cynnwys cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, y gellir eu hateb yn wirfoddol.

Mae'r Bil yn cyflawni'r cynigion a nodir ym Mhapur Gwyn Rhagfyr 2018, [Helpu i Lunio Ein Dyfodol: Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021](#), sy'n nodi argymhellion Awdurdod Ystadegau'r DU fod y cwestiynau newydd hyn yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, yn wirfoddol.

Gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd [femorandwm cydsyniad deddfwriaethol](#) ar gyfer Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar

15 Mai 2019. Y rheswm dros hyn yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth i Gymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Cysylltu

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru